

Tasg 1

Byd yn ei le

Gan godi dwylo, nodwch pwy fyddai'n pleidleisio dros aros yn Ewrop a phwy fyddai'n pleidleisio dros adael.

Mewn dau grŵp, sef un grŵp **o blaid aros** a grŵp arall **o blaid gadael**, trafodwch y dadleuon sydd o blaid aros neu adael. Yna cyflwynwch y dadleuon hyn i weddill y dosbarth.

Trafodwch sut rydych chi'n meddwl y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio arnoch chi, e.e. o ran gwyliau, cyfleoedd gwaith, prisiau yn codi neu'n gostwng, ac yn y blaen.